
gwarchodfa natur leol

# BRYN EURYN

local nature reserve



**ehangwch eich gorwelion…**
**broaden your horizons…**

- **Golygfeydd gwych**
- **Yn agos i Landrillo yn Rhos**
- **Llawer o fywyd gwyllt**
- **Adfeilion hanesyddol**



- **Great views**
- **Close to Rhos on Sea**
- **Rich in wildlife**
- **Historical ruins**



## Cyflwyniad

Glöynnod gwych, blodau bendigedig, bryngaer hanesyddol a phlasty mawreddog dim ond rhai o bleserau Bryn Euryn, y gallwch eu mwynhau ar Lwybrau'r Copa a'r Goedwig sydd yn y daflen hon. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw perchennog Bryn Euryn, ac fe'i rheolir gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy. Gobeithiwn y mwynhewch eich ymweliad â'r bryn.

## SUT YDW I'N MYND YNO?

**Ar drên/bws:** Ffôn Traveline Cymru: 0870 6082608 www.traveline-cymru.org.uk
Mae'r map yn dangos sut i gyrraedd y safle.

**Efo car:** Dilynwch yr A55 i gyffordd 20 i Landrillo yn Rhos. Gweler y map am sut i gyrraedd y safle.

## RHAGOR O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am ragor o wybodaeth a thaflenni ar amrywiaeth o deithiau cerdded ewch i: www.conwy.gov.uk/countryside

**E-bost:** cg.cs@conwy.gov.uk
Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy:
**Ffôn:** 01492 575200/575290

**Am gopi o'r llyfryn hwn mewn print mawr ffoniwch 01492 575290**

## Introduction

Beautiful butterflies, fabulous flowers, a historical hillfort and a magnificent ruined mansion are some of the delights of Bryn Euryn, which can be sampled on the Summit and Woodland Trails within this leaflet. Bryn Euryn is managed by Conwy Countryside Service as a Local Nature Reserve. We hope you enjoy your visit to the hill.

## HOW DO I GET THERE?

**By train/bus:** Tel. Traveline Wales 0870 6082608 www.traveline-cymru.org.uk
See the map for how to reach the site.

**By car:** Follow the A55 to junction 20 for Rhos on Sea. See the map for how to reach the site.

## MORE WALKS IN CONWY

For information and leaflets on a variety of walks: visit: www.conwy.gov.uk/countryside

**Email:** cg.cs@conwy.gov.uk
Conwy Countryside Service:
**Tel:** 01492 575200/575290

**For a large print copy of this booklet please call 01492 575290**




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380 2010
© Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2010
© Crown copyright. All rights reserved.
Conwy County Borough Council 100023380 2010
© Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2010

***Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda***
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

***Please follow The Countryside Code***
Respect • Protect • Enjoy

GWASANAETH CEFN GWLAD CONWY COUNTRYSIDE SERVICE

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
100023380 2010

© Crown copyright. All rights reserved.
Conwy County Borough Council
100023380 2010

## LLWYBR Y COPA

Mae'r llwybr cylch hwn sydd wedi ei gyfeirbwyntio yn mynd â chi heibio i adfeilion plasty Llys Euryn, drwy goetir a thiroedd gleision, i'r fryngaer hanesyddol ar y copa, efo'i golygfeydd panoramig, ac yn ôl i'r man cychwyn yn y maes parcio. Mae'r llwybr tua milltir o hyd a chyda rhywfaint o waith dringo/cerdded i lawr elltydd serth, sy'n gallu bod yn llithrig ar ôl iddi fod yn bwrw glaw, felly bydd rhaid i chi wisgo esgidiau cryfion. Dilynwch y saethau gwyrdd o fynedfa'r maes parcio.

## LLWYBR Y GOEDWIG

Mae're llwybr cylch hwn sydd wedi ei gyferbwyntio yn dilyn Llwybr y Copa i ddechrau, wedyn yn parhau trwy'r goedwig, efo llai o waith dringo/cerdded i lawr elltydd serth, ac yn ôl i'r man cychwyn yn y maes parcio. Mae'r llwybr tua milltir a hanner o hyd. Dilynwch y saethau coch o fynedfa'r maes parcio.

**Er yn gyfyng, mae mynediad i scwteri symudol yn bosib trwy dilyn damau o'r llwybr. Ffoniwch 01492 575200.**

## THE SUMMIT TRAIL

This waymarked circular trail leads you past the ruined mansion of Llys Euryn, through woodland and grassland, to the ancient hillfort at the summit, with its panoramic views, and back to the starting point of the car park. The trail is about a mile in length and does have some steep climbs/descents which can be slippery after rain, so you will need stout footwear. Follow the green waymarkers from the car park entrance.

## WOODLAND TRAIL

This waymarked circular trail initially follows the Summit Trail, then continues through woodland, with fewer climbs/descents, and back to the starting point of the car park. This trail is about 1.5 miles in length. Follow the red waymarkers from the car park entrance.


**Although limited, access for mobility scooters is possible by following sections of the trail. Telephone 01492 575200.**

## HANES

Mae Llwybr y Copa yn mynd â chi heibio i blasty Llys Euryn sy'n dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, llys a fu unwaith yn destun cerddi beirdd. Hefyd, mae'n eich arwain at fryngaer o'r chweched ganrif sydd ar gopa Bryn Euryn, efo'i golygfeydd panoramig. Cafodd y copa ei ddefnyddio gan yr Awyrlu Brenhinol yn ystod y rhyfel. Mae hanes y ddau safle ar fyrddau sydd wedi eu lleoli ar y safleoedd. Roedd Bryn Euryn wedi ei amgylchynu gan gefn gwlad hyd yn oed 200 mlynedd yn ôl, ac roedd pentrefannau bychain ym Mochdre, Rhos, Llysfaen a Cholwyn; ond erbyn hyn mae'n ynys ymysg tai. Ar y bryn ei hun, mae'n ddiddorol nodi nad oedd unrhyw brysgwydd ar y copa ym 1948, ond erbyn hyn mae wedi ei orchuddio â drain duon.

## HISTORY

The Summit Trail takes you by the fourteenth century mansion of Llys Euryn, once celebrated in bardic verse. It also leads you to a sixth century hillfort at the summit of Bryn Euryn, with its panoramic views. The summit was also used by the RAF during the war. The history of both sites is detailed on boards located on site. Even 200 years ago Bryn Euryn was surrounded by countryside with small hamlets at Mochdre, Rhos, Llysfaen and Colwyn but it is now an island amongst housing. On the hill itself, it is interesting to note that the summit of the hill was clear of scrub in 1948 but is now covered in blackthorn.



← Dineirth - y gaer fel yr oedd, o bosib, yn ymddangos yn y chweched ganrif
Dineirth - the fort as it may have looked in the sixth century.

## BLODAU

Mae gan Fryn Euryn amrywiaeth cyfoethog o flodau gwyllt yn y tiroedd gleision a'r coetiroedd, sydd yn ffynnu yn y pridd bras calchog yma. Mae'r tiroedd gleision yn ddigon gwerthfawr i fod wedi eu dynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae'r bryn cyfan wedi cael ei ddynodi'n Warchodfa Natur Leol, i gydnabod ei fywyd gwyllt gwych a'i werth i'r gymuned.

Mae blodau'r coetiroedd ar eu gorau yn y gwanwyn, ac maent yn cynnwys blodau'r gwynt, bresych y cŵn, suran y coed a mapgoll. Yn y rhannau mwy llaith o'r goedwig, mae tafod yr hydd yn doreithiog a deniadol. Mae'r tiroedd gleision yn blodeuo drwy'r haf - heblaw am y briallu Mair yn y gwanwyn - ac mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys rhosynnau'r graig, plucan, llysiau'r cywair, ysgall dreinwyn a theim gwyllt. Lle mae'r graig yn agos at yr wyneb, gellir gweld y cor-rosyn lledlwyd a'r gludlys gogwyddol sy'n brin drwy'r wlad. Mae nifer o degeiriannau yma gan gynnwys tegeirian porffor y gwanwyn, tegeirian bera a thegeirian y waun. Planhigyn diddorol nad yw wedi ei ddarganfod ar y bryn yn ddiweddar yw'r gorfanadl eiddew. Nid oes iddo unrhyw liw gwyrdd ac mae'n barasitig ar wreiddiau eiddew. Hefyd, mae llwyni a choed anghyffredin ar y bryn, fel aeron y bisgwydden, yr ywen, merywen a chlust yr ewig.



Brith y coed
Speckled Wood



Bwmed chwe smotyn
Six spot burnet moth

## GLÖYNNOD BYW

Mae'r blodau'n cynnal amrywiaeth gwych o drychfilod. Mae chwech ar hugain o wahanol fathau o löynnod byw wedi eu cofnodi ar y bryn. Yn y coed, fe sylwch ar frithod y coed. Ar y llecynnau caregog, fe welwch lwydiaid y fagwyr a glöynnod llwydion. Mae'n bosibl y gwelwch lwydion y ddôl a ieir bach y ffridd yn hedfan rhwng y glaswellt, gyda llwyd bach y ddôl yn hedfan drwy'r mieri a'r eithin. Mae'n bosibl y gwelwch fentyll cochion a glöynnod yr ysgall, sydd wedi mudo o Ganol Ewrop a Gogledd Affrica, ger y copa ym mis Mai a mis Mehefin. Mae darganfyddiadau lliwgar eraill yn cynnwys ieir bach llygadog, glöynnod trilliw bach, copors bach a'r glesyn cyffredin. Gwyfyn y mae'n bosibl y gwelwch ef yn hedfan yn ystod y dydd yn yr haf yw'r bwrned chwe smotyn hardd. Mae ganddo adenydd gwyrdd tywyll efo smotiau cochion ond mae'n edrych fel gwyfyn aneglur rhuddgoch pan fo'n hedfan. Mae ei lindys yn bwydo ar bys ceirw toreithiog, a gellir dod o hyd i'w gocynau melyn gwelw nodweddiadol ar goesau planhigion.

## DAEAREG

Meddyliwch am foroedd trofannol a riffiau cwrel! Dyma'r amgylchiadau 350 miliwn o flynyddoedd yn ôl pan ffurfiwyd carreg galch Bryn Euryn allan o weddillion cronedig a chywasgedig creaduriaid y môr. Cafodd y garreg galch ei hystumio gan weithgaredd folcanig a symudiadau'r ddaear, ac ymgorfforwyd gwythiennau o fwynau yn y graig. Yn fwy diweddar, tua 12,000 o flynyddoedd yn ôl yn ystod yr Oes yr Iâ olaf, cafodd y creigiau mwy meddal eu sgwrio allan gan rewlifoedd anferth, gan adael y dyffrynnoedd sydd o amgylch Bryn Euryn a'r clogwyni serth ar yr ochr ddeheuol.


## FLOWERS

Bryn Euryn has a rich variety of wild flowers both in the grassland and woodland, which love the lime rich soil here. The grassland areas are valuable enough to have been designated a Site of Special Scientific Interest and the whole hill has been declared a Local Nature Reserve in recognition of its great wildlife and community value.

The woodland flowers are best seen in the spring and include wood anemone, dog's mercury, wood sorrel and wood avens. In the damper parts of the wood the attractive hart's tongue fern is abundant. The grassland areas bloom through the summer -except for the spring cowslips- and characteristic species include common rockrose, kidney vetch, lady's bedstraw, carline thistle and wild thyme. Where the rock lies near the surface the nationally scarce hoary rockrose and Nottingham catchfly can be found. Several orchids are to be found including early purple orchid, pyramidal orchid, and green winged orchid. An interesting plant which has not recently been found on the hill, is ivy broomrape. It has no green colouring and is parasitic on the roots of ivy. There are also some uncommon shrubs and trees on the hill, such as spindle, yew, juniper and spurge laurel.

## BUTTERFLIES

The flowers support a great variety of insect life. Twenty six species of butterfly have been recorded on the hill. In the woods you will notice the speckled wood. On the rocky areas you will see the wall brown and grayling. Flying among the grasses you may see the meadow brown and small heath, while on the bramble and gorse the gatekeeper may be found. Near the summit in May and June you may find red admirals and painted ladies, which have migrated from Central Europe and North Africa. Other colourful finds include the peacock, small tortoiseshell, small copper and the common blue. A day flying moth you may see in the summer is the handsome six spot burnet moth. It has dark green wings spotted with red but it becomes a crimson blur when it flies. Its caterpillar feeds on the abundant bird's foot trefoil and then its characteristic pale yellow cocoons can be found on the stems of plants.



Llys Euryn fel roedd yn ymddangos tua'r flwyddyn 1600.
Llys Euryn as it may have looked around 1600.

## GEOLOGY

Think of tropical seas and coral reefs! These were the conditions 350 million years ago when the limestone from which Bryn Euryn is composed was formed from the accumulated and compressed remains of sea creatures. Volcanic activity and earth movements then buckled the limestone and incorporated mineral veins into the rock. More recently, some 12,000 years ago in the last Ice Age, huge glaciers scoured out the softer rocks and left the valleys around Bryn Euryn and the steep cliffs on the southern side.